

## Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG)

**Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams ar 24 Mehefin - 7-9.30pm**

<b>Yn bresennol</b>
Nick O'Sullivan, Cadeirydd, Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Morol Cymru Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Trevor Jones, MSFOMA Kevin Denman, Cymunedau Pysgota De-orllewin Cymru Mark Roberts, Cwmni Cydweithredol Pysgotwyr Gogledd Cymru Holly Whitely, Seafish Wales Sean Evans, CNC John O'Connor, Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru Gareth Bevington, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru Mike Dowell, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru Julian Bray, Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig, Llywodraeth Cymru Rob Floyd Gary Douch James Watkins Bekah Cioffi Elen King, Llywodraeth Cymru (cofnodydd)

<b>1</b>	<b>Croeso ac ymddiheuriadau:</b>  Ymddiheuriadau gan Carwyn Thomas, Cyngor Sir Penfro
<b>2</b>	<b>I) Cymeradwyo nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth</b>  Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar y newidiadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddariad gan Sean Evans – dileu ar ôl CNC</li></ul> Cais am gofnodion manylach yn y dyfodol  <b>II) Cynnydd ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol</b>  Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau
<b>3</b>	<b>Cyflwyniad:</b>  Rhoddodd Mike y wybodaeth ddiweddaraf am ba mor anodd oedd gwaith yr Is-adran o ganlyniad i'r pandemig Covid 19, yn enwedig o ran gweithredu Grant Pysgodfeydd Cymru. Ond mae heriau mawr o'n blaenau ac nid yw lefel yr uchelgais wedi lleihau. Mae'r gwaith ar Ymadael â'r UE yn dechrau symud eto ac mae Cymru yn paratoi i ymateb yn gyflym i ddatblygu trafodaethau ar bysgodfeydd.
<b>4</b>	<b>Rheoli a Gorfodi:</b>  Rhoddodd James Watkins y wybodaeth ddiweddaraf am Reoli a Gorfodi. <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd gorfodi ar y glannau yn ailgychwyn yr wythnos nesaf ar gapasiti o tua 70%</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae staff ychwanegol wedi'u recriwtio ar gyfer y llongau ac mae prosesau rheoli diogelwch llawn bellach ar waith, felly bydd y llongau yn ôl ar y môr o'r mis nesaf ymlaen</li> <li>• Tystysgrifau dalfeydd – mae gwaith yn mynd rhagddo a bydd systemau datblygedig ar waith mewn pryd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio</li> <li>• Mae iVMS yng Nghymru ymhellach ar y blaen nag yng ngweddill y DU, ac mae'n barod i'w gyflwyno</li> </ul> <p><b>CAM GWEITHREDU: Unrhyw wybodaeth a syniadau ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer gorfodi i James</b></p>
5	<p><b>Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig:</b></p> <p>Rhoddodd Julian y wybodaeth ddiweddaraf a phwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar Reoli Pysgodfeydd yn Hyblyg</p> <p>Diweddariadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pysgodfa Gocos y Tair Afon – mae'n paratoi i agor ym mis Gorffennaf. Gyda Covid 19, rydym wrthi'n asesu'r risg o agor y pysgodfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, casglwyr a staff</li> <li>• Daeth yr ymgynghoriad ar gregyn moch i ben ar 7 Mehefin a daeth 57 o ymatebion i law. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn ar y cyfan, gydag o leiaf 70% o ymatebion cadarnhaol i'r cwestiynau. Efallai y bydd angen ymgynghori ymhellach ar rai agweddau</li> <li>• Gorchymyn Cocos – gobeithio cael cymeradwyaeth Gweinidogion i ymgynghori ar gocos tua diwedd y flwyddyn.</li> <li>• Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Rheoleiddio – Gorchmynion Pysgodfa Unigol Afon Menai ar y trywydd iawn yn erbyn y cynllun cyflawni. Swyddogion yn trafod Cilfach Tywyn ac afon Dyfrdwy, mewn trafodaeth â CNC</li> </ul> <p>Gofynnodd Gill am yr amserlen ar gyfer y Gweithgarwch Asesu Pysgodfeydd Cymru; ymatebodd Julian ei fod yn gobeithio cyhoeddi ymgynghoriad yn yr hydref. Gofynnodd Gill hefyd ynghylch adnoddau. Ymatebodd Julian na fyddai unrhyw adnodd ychwanegol yn y tymor byr ond y byddai'n ail-flaenoriaethu'r adnodd sydd ar gael.</p> <p>Gofynnodd Holly a oedd dyddiadau targed ar gyfer ymgynghoriadau dilynol ar gregyn moch. Ymatebodd Julian, os oedd angen, cyn gynted â phosibl ond roedd yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth a oedd ar gael. Nid oes amserlen ar gyfer cregyn bylchog.</p> <p>Gofynnodd Trevor am Orchmynion Pysgodfa Unigol Gorllewin Menai a Dwyrain Menai</p> <p>Ymatebodd Julian:</p> <p>Gorllewin Menai – mae problem benodol yng Ngorllewin Menai ac, os gellir ei datrys, byddai'r gorchymyn pysgodfa unigol ar waith ddechrau'r flwyddyn nesaf</p> <p>Dwyrain Menai – sydd i ddod i ben ym mis Ebrill 2022 - mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau y bydd gorchymyn newydd yn cychwyn pan ddaw'r hen un i ben.</p>

	<p>Dywedodd Julian ei fod yn cydnabod pwysigrwydd Gorchmynion Pysgodfa Unigol ar gyfer Dwyrain Menai a Gorllewin Menai ac yn deall y pryderon ynghylch Dwyrain Menai, ond bod y tîm yn gweithio mewn ffordd systematig ac yn anelu at y dyddiad hwnnw. Mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwnnw ar hyn o bryd.</p> <p>O ran cregyn moch, cydnabu Kevin, er ei fod yn cymryd llawer o amser, fod gweithio'n agos gyda'r diwydiant ar rag-ymgyngoriad wedi cynhyrchu gwell ymgynghori a oedd yn cael ei gefnogi'n dda, ond bod hynny wedi tanlinellu'r ffaith y bydd gorfodi yn hollbwysig.</p>
<p><b>6</b></p>	<p><b>Bil Pysgodfeydd y DU</b></p> <p>Cyflwynodd Rob Floyd y wybodaeth ddiweddaraf am Fil Pysgodfeydd y DU. Mae'r cyflwyniad wedi'i ddsbarthu i'r aelodau</p> <p>Gofynnodd Jim sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgysylltu ar gynlluniau ac amcanion rheoli ar gyfer y JFS. Dywedodd hefyd fod angen strategaeth 5 mlynedd.</p> <p>Cadamhaodd Rob y byddai angen y JFS o fewn 8 mis i ddeddfu Bil Pysgodfeydd y DU. Bydd y JFS yn rhan o gyflawni Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd, a'r bwriad yw cael grŵp rhanddeiliaid i lywio'r gwaith hwnnw. Gohiriwyd datganiad y Gweinidog ar Brexit a'n Moroedd oherwydd pandemig COVID 19, ond mae'n gobeithio ailedrych arno'n fuan.</p> <p>Cytunodd Jim a Holly y byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad teithio.</p> <p>Cadamhaodd Rob hefyd fod 100 tonnall ychwanegol o gwota wedi'i sicrhau ar gyfer Cymru eleni.</p>
<p><b>7</b></p>	<p><b>Polisi Ariannu'r Môr a Physgodfeydd</b></p> <p>Rhoddodd Gary ddiweddariad gan ddweud nad oedd y £2.4 miliwn wedi'i neilltuo a bod angen gwaith i sicrhau bod yr arian ar gael i'w ddefnyddio o hyd yn dilyn yr ymateb i bandemig COVID 19.</p> <p>Diolchodd Jim am Grant Cynnal Pysgodfeydd Cymru a oedd yn help mawr i'r diwydiant, a dywedodd y byddai'n drueni pe bai'r £2.4 miliwn ac unrhyw gyllid dilynol yn cael eu colli o ystyried yr angen i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad.</p> <p>Dywedodd Kevin y byddai'n dda gallu buddsoddi mewn cyfleusterau a seilwaith porthladdoedd.</p> <p>Dywedodd Gary fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i geisio sicrhau bod olynnydd EMFF ar gael o 2022 ymlaen ac yn gweithio ar sail yr ymrwymiad na fydd Cymru yn cael yr un geiniog yn llai</p>

	Jim - SCS yn un o nodweddion cynlluniau olynol - wedi'i nodi a'i ddeall.
<b>8</b>	<p><b>Datblygu'r Farchnad Bwyd Môr a'r Gadwyn Gyflenwi</b></p> <p>Rhoddodd Bethan ddiweddariad gan ddweud eu bod wedi bod yn ymchwilio i farchnad bosibl ar gyfer adenydd morgathod ond nad oedd marchnad na chapasiti prosesu ymhlith y gweithgynhyrchwyr y cysylltwyd â nhw.</p> <p>Soniodd Bethan am fenter O'r Porth i'r Plât Menter a Busnes fel ffordd o ddod o hyd i bartneriaethau i ddatblygu llinellau cynnyrch</p>
<b>9</b>	<p><b>Gwyddor a Thystiolaeth Pysgodfeydd</b></p> <p>Cafwyd diweddariad gan Bekah am wyddor a thystiolaeth pysgodfeydd.</p> <p>Mae COVID 19 wedi effeithio ar amseriad arolwg ICES, ac mae'r gwaith hwnnw'n cael blaenoriaeth, felly efallai na fydd cyllideb i ariannu arolygon mewn meysydd eraill.</p> <p>Gofynnodd Gill am gamau gweithredu i ddatblygu cynllun gofodol ar stociau pysgod, yn enwedig llymŕiaid a chorbenwaig.</p> <p>Dywedodd Sean nad oedd cymaint o bwysau ar y stociau yng Nghymru ag oedd yna ar y stociau ym Môr y Gogledd.</p> <p>Gofynnodd Holly am y Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd. Cadarnhaodd Bekah fod hyn wedi'i wthio'n ôl gan fod y datganiad ar Brexit a'n Moroedd wedi'i ohirio, ond ei bod hi'n gweithio ar y cynllun nesaf.</p>
<b>10</b>	Roedd Papur 6 er gwybodaeth
<b>11</b>	<p>Unrhyw fater arall</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diolchodd y grŵp i Sean gan mai hwn oedd ei gyfarfod olaf gan fod Colin yn dychwelyd i CNC</li> <li>• Anfonwch sylwadau ac adborth ar y cyfarfod rhithiol at Louise Durns</li> </ul>

Camau gweithredu

**Cam gweithredu 1:** Unrhyw wybodaeth a syniadau ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer gorfodi at James

Pawb